CYPE(5)-29-20 - Papur i'w nodi 11

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref -
Ein cyf/Our ref

19 Tachwedd 2020

Annwyl Lynne Neagle AS

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – effaith Covid-19 ar addysgu a dysgu o bell**

Diolch am eich llythyr sy'n gwneud ymholiadau ynghylch y defnydd o gyllid y Rhaglen Dysgu Carlam.

Fel y gwyddoch, cyhoeddais ar 8 Gorffennaf gyllid ychwanegol o £29m i recriwtio, adfer a chodi safonau yn ysgolion Cymru mewn ymateb i effaith y pandemig. Mae'r cyllid wedi'i dargedu at flynyddoedd 7,11,12,13 yn ogystal a dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr dan anfantais o bob oed. Bydd y pecynnau cymorth a ddarperir ar lefel ysgol yn cynnwys dulliau gweithredu amrywiol, gan gynnwys rhaglenni dysgu personol, hyfforddiant a mentora ychwanegol i ddysgwyr ac amser ac adnoddau ychwanegol, a bydd yn hollol ddibynnol ar yr angen yn lleol.

Mae fy swyddogion wedi darparu canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol ar sut i wneud y defnydd gorau o'r cyllid.

https://llyw.cymru/recriwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html

Er mwyn ymateb i'r ymholiadau sydd wedi dod i law mewn perthynas â defnyddio'r cyllid, mae fy swyddogion hefyd wedi datblygu cyfres o gwestiynau cyffredin a gyhoeddwyd i gyd-fynd a'r ddogfen o egwyddorion. Mae'r adnoddau hyn a'r rhestrau chwarae "rhannu ein profiadau" ar gael ar wefan Hwb (https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/rhannu-ein-profiadau/) a bwriedir iddynt gefnogi ysgolion i wneud penderfyniadau ynghylch y cyllid.

Rydym wedi ceisio bod yn glir iawn yn y canllawiau ynghylch yr egwyddorion pwysig sy'n sail i'r cyllid hwn. Yn gyntaf, bydd penaethiaid yn penderfynu pa grwpiau ac unigolion fydd yn cael cymorth gan y rhaglen; ac yn ail nad ydym am osod cyfyngiadau ar benaethiaid o ran sut y maent yn mynd ati i benodi a datblygu'r capasiti newydd hwn. Wedi dweud hynny, rydym wedi bod yn glir mai diben y cyllid hwn yw creu a rhyddhau capasiti ychwanegol yn ein hysgolion. Rydym hefyd wedi nodi'n glir bod recriwtio yn fater i ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol, a bydd hyn yn digwydd ar lefel leol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn eich llythyr, roeddech yn gofyn am fanylion ynghylch nifer y swyddi sydd wedi'u creu fel rhan o'r cynllun hwn a pha drefniadau monitro sydd ar waith mewn perthynas â'r cyllid. Ar hyn o bryd, nid oes gennym set lawn o ddata ar nifer yr athrawon a staff eraill sydd wedi'u recriwtio. Er hynny, rydym yn cydweithio ag awdurdodau lleol i ddeall sut y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn defnyddio'r capasiti ychwanegol hwn a natur y cymorth sy'n cael ei greu ganddynt.


Mae rhai ffurflenni monitro wedi dod i law gan awdurdodau lleol, sy'n amlinellu eu cynnydd mewn perthynas â recriwtio i rolau a defnyddio capasiti i gefnogi dysgwyr. Rydym yn disgwyl cael rhagor o ffurflenni dros y dyddiau nesaf. Rydym yn parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn deall sut mae ysgolion yn creu'r capasiti ychwanegol ac i gefnogi'r ffyrdd amrywiol y mae ysgolion yn defnyddio'r grant.

Rydym yn ymwybodol o nifer o ddulliau arloesol y mae ysgolion yn eu defnyddio na ellir eu gweithredu drwy athro neu athrawes ychwanegol neu gynorthwyydd addysgu ychwanegol yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth dysgu ar-lein, cymorth a thiwtora i ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau, darpariaeth trydydd parti i ddysgwyr agored i niwed a defnyddio gweithwyr cymorth i gefnogi dysgu ar-lein lle gall gweithiwr cymorth fod yn oedolyn ychwanegol mewn dosbarth sy'n cael ei ffrydio'n fyw.

Fel Llywodraeth, rydym hefyd wedi cydweithio â Chyngor y Gweithlu Addysg i hyrwyddo'r rhaglen. Cydweithiodd y Cyngor â ni i sicrhau bod ymarferwyr cofrestredig cymwys yn ymwybodol o'r cyfleoedd y gallai'r cynllun eu cynnig. Yn ystod mis Medi, anfonwyd dros 14,000 o e-byst i'r rhai a oedd wedi cofrestru ac yn gymwys, a darparwyd dolen iddynt at ffurflen mynegi diddordeb ar wefan y Cyngor. Cyflwynodd dros 2,300 o bobl ffurflen i'r Cyngor, ac maent bellach wedi'u casglu ar data a'r manylion wedi'u hanfon ymlaen at yr awdurdodau lleol perthnasol. Bydd hyn yn cynorthwyo'r awdurdodau lleol i baru'r mynegiannau o ddiddordeb i bersonél posibl.

Rwyf innau, fel chithau, yn benderfynol o sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol fel y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio, sef i greu swyddi addysgu newydd, cefnogi anghenion dysgwyr a lliniaru effaith colli amser addysgu. Felly, rydym yn benderfynol o barhau i gydweithio ag awdurdodau lleol i gefnogi'r cynllun.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education